

Gormod o Waith a Dim Digon o Gyflog

Penderfynodd negodwyr UCU a swyddogion Cynhadledd y Sector Addysg Bellach drefnu Cynhadledd y Sector Addysg Bellach arbennig ddydd Llun 2 Gorffennaf 2018 yn swyddfeydd UCU yn Nhondu, De Cymru. Gwnaed y penderfyniad hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r ymateb a gawsom gan Colegau Cymru, corff y Pennaeth, yn ein cyfarfod ar 18 Mehefin 2018.

Cais Cyflog

'Mae'r undebau am ei gwneud yn glir ein bod yn disgwyli codiadau cyflog uwchlaw chwyddiant i ddechrau mynd i'r afael â'r lleihad yng ngwerth gwirioneddol ein cyflog dros y degawd diwethaf. Bydd angen sawl blwyddyn o 'godiadau cyflog uwchlaw chwyddiant sylweddol' arnom er mwyn cau'r bwlc a grëwyd gan bolisi 'caledi' llywodraeth San Steffan. Rydym yn disgwyli o leiaf 7.5%, neu £1,500, pa un bynnag sydd fwyaf.

Yn ogystal â hyn, rydym yn disgwyli y bydd gwaith yn parhau tuag at gwblhau Graddfa Gyflog Genedlaethol ar gyfer Staff Cynnal Busnes, i fynd ochr yn ochr â'r Raddfa Gyflog Genedlaethol ar gyfer Staff Darlithio a negodwyd eisoes a'r rhai hynny sydd ar Raddfa Gyflog Rheolwyr. Cytunwyd ar y gwaith hwn yn 2002, ac mae'n ddrwg gennym nodi bod angen gwneud hyn o hyd ar gyfer y staff sy'n cael eu talu waethaf yn y sector.

Ac rydym yn ceisio ymrwymiad parhaus cyflogwyr i sicrhau y caiff pob aelod o staff a gyflogir yn uniongyrchol ei dalu ar Gyfradd Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw o leiaf.'

Gwnaethom gyflwyno cais cyflog y Cyd-undebau Llafur uchod a gwnaethant ofyn am eu gohirio ac yna rhoddwyd eu hymateb i ni a oedd yn ddatganiad hir yn egluro pam na allent fforddio cais o'r fath ac felly gwnaethant ei wrthod; yn hytrach cynigiwyd codiad cyflog o 1%.

Ar adeg ysgrifennu nid ydym yn gwybod beth fydd athrawon ysgol yn cael gan eu Corff Adolygu Cyflog nhw, ond mae undebau llafur athrawon ysgol yn disgwyli cynnydd o fwy na 1%.

Ond nid dyna'r cyfan a ddywedwyd! Cawsom ein hysbysu na fyddent yn cynnal trafodaethau ar ddiwygio'r Cytundeb Llwyth Gwaith Cenedlaethol i fynd i'r afael â'n pryderon neu wneud gwaith pellach ar raddfa gyflog y Staff Cynnal Busnes Cenedlaethol nes bod mater dyfarniad cyflog wedi'i ddatrys.

Yn syth ar ôl y cyfarfod cytunodd yr undebau a oedd yn bresennol i alw cyfarfod arbennig i ystyried datgan anghydfod gyda'r cyflogwyr dros gyflog a gofyn i'w haelodau bleidleisio gyda'r bwriad o fynd ar streic gydgysylltiedig yn gynnar yn y flwyddyn academaidd newydd.

Mae eich safbwytiau'n bwysig iawn i ni a hoffem allu cynrychioli safbwytiau pob un o'n haelodau yn llawn dros yr anghydfod cyflog. Cysylltwch ag unrhyw un o'ch swyddogion cangen a gadewch iddynt wybod beth yw eich barn, cyn dydd Gwener 29 Mehefin 2018.

Overworked and Underpaid

UCU negotiators and the officers of FESC decided to call a special FESC on Monday 2 July 2018 in UCU offices in Tondu, South Wales. This decision was taken as a direct consequence of the response we had from Colegau Cymru, the Principal's body, at our meeting on the 18 June 2018.

Pay Claim

'The unions want to make it clear that we expect an above inflation pay rise to begin to address the reduction in the real value of our pay over the last decade. We will need several years of 'substantial above inflation pay rises' to close the gap created by the 'austerity' policy of the Westminster government. We expect a minimum of 7.5%, or £1,500 whichever is greater.'

Additionally we expect that work will continue towards completion of a National Pay Scale for Business Support Staff, to sit alongside the already negotiated National Pay Scales for Lecturing Staff and those on the Management Pay Spine. This work was agreed in 2002, it is with regret that we note that this remains to be done for the most poorly paid staff in the sector.

And we seek the employers continued commitment to seeing all directly employed staff paid at least the Living Wage Foundation Living Wage Rate.'

We tabled the Joint Trade Union pay claim above and they called for an adjournment and then gave us their response which effectively amounted to a long statement about why they couldn't afford such a claim and therefore they rejected it; offering instead a 1% pay increase.

At the time of writing we do not know what the school teachers will be awarded from their Pay Review Body, but school teacher trade unions are expecting an increase greater than 1%.

But that is not all they said! They informed us that they would not enter into negotiations on amending the National Workload Agreement to address our concerns or do further work on the National Business Support Staff pay scale until such time as the issue of the pay award was resolved.

Directly after the meeting the unions present agreed to call a special meeting to consider declaring a dispute with the employers over pay and balloting their membership with a view to taking co-ordinated strike action early in the new academic year.

Your views are very important to us and we would like to be able to fully represent the views of all of our membership over the pay dispute. Do get in touch with any of your branch officers and let them know what you think, before Friday 29 June 2018.